# DEDDF TAI (CYMRU) 2014

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 5 Cyllid Tai

231. Mae adrannau 131 i 136 yn darparu bod yr un ar ddeg o awdurdodau tai lleol sydd wedi cadw eu stoc tai ac sy’n gweithredu Cyfrif Refeniw Tai, yn prynu eu hunain allan o system bresennol y Cyfrif Refeniw Tai a bod y system gymhorthdal yn cael ei diddymu. Bydd adran 131 yn cael ei dwyn i rym ar ôl arfer (fel y bo’n angenrheidiol) pwerau a gynhwysir yn narpariaethau eraill y Rhan hon. Daw adrannau 132 i 136 i rym yn awtomatig ar ôl i’r cyfnod o 2 fis o’r dyddiad y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

### *Adran 131 – Diddymu cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai*

232. Mae Rhan 6 (Cyllid Tai) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i’w diwygio er mwyn diddymu’r cymhorthdal sy’n daladwy mewn perthynas â Chyfrifon Refeniw Tai, sy’n cael eu cynnal gan awdurdodau tai lleol o dan y Ddeddf honno. Caiff yr adran hon ei dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn.

### *Adran 132 – Taliadau setlo*

233. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddyroddi dyfarniad, sy’n nodi cyfrifiad a swm ‘taliad setlo’ ar gyfer pob awdurdod tai lleol sy’n cadw Cyfrif Refeniw Tai. ‘Taliad setlo’ yw’r swm y bydd yn ofynnol i bob awdurdod tai lleol ei dalu i, neu ei dderbyn gan, Weinidogion Cymru er mwyn gadael y system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai. Gall taliad setlo fod yn ddim hefyd. Gan fod Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn cael Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai negyddol oddi wrth bob awdurdod tai lleol, bydd yn ofynnol wedyn i awdurdod tai lleol wneud taliad setlo i Weinidogion Cymru.

### *Adran 133 – Taliadau pellach*

234. Caiff Gweinidogion Cymru wneud dyfarniad pellach i gywiro taliad setlo a wnaed o dan Adran 132. Ni châi taliad pellach ei wneud ond os oedd gwall, neu newid mewn unrhyw fater a gymerwyd i ystyriaeth, yn y cyfrifiad neu’r dyfarniad a oedd yn ymwneud â thaliad setlo a wnaed o dan adran 132. Caniateir i daliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru i awdurdodau tai lleol ac i’r gwrthwyneb. Gall dyfarniad o dan yr adran hon gael ei amrywio neu ei ddirymu gan ddyfarniad dilynol.

### *Adran 134 – Darpariaeth atodol ynghylch taliadau*

235. Rhaid gwneud taliadau o dan y Rhan hon yn y rhandaliadau, ar yr adegau ac yn unol â’r trefniadau a benderfynir gan Weinidogion Cymru. Wrth wneud taliad rhaid i awdurdod tai lleol ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol ei rhoi iddynt.

236. Caiff Gweinidogion Cymru godi llog ar awdurdod tai lleol, ac am unrhyw gostau ychwanegol yr aed iddynt , os gwneir taliad yn hwyr o dan y Rhan hon.

237. Mae taliad setlo a thaliad pellach a wneir gan, neu i, awdurdod tai lleol o dan Rannau 132 a 133 i'w trin fel gwariant cyfalaf neu dderbyniad cyfalaf at ddibenion Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 2003.

238. Mae Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 wedi ei diwygio er mwyn galluogi'r llog a'r costau ychwanegol eraill a godir o dan Adran 134 (3) a (4) i gael eu trin fel trafodiad debyd yng Nghyfrif Refeniw Tai awdurdod tai lleol.

### *Adran 135 – Darparu gwybodaeth ar gais*

239. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth y maent yn gofyn amdani at ddibenion arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon. Os yw awdurdod yn methu â chydymffurfio â chais am ddarparu gwybodaeth cyn diwedd cyfnod penodedig, caiff Gweinidogion Cymru arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon ar sail unrhyw ragdybiaethau ac amcangyfrifon y maent yn gweld yn dda. Gallai cais am wybodaeth gael ei wneud mewn perthynas â chyfrifo lefel taliad setlo.

### *Adran 136 – Dyfarniadau o dan y Rhan hon*

240. Caiff dyfarniad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu fathau gwahanol o achosion, gan gynnwys ar gyfer ardaloedd gwahanol, awdurdodau tai lleol gwahanol, neu ddisgrifiadau gwahanol o awdurdodau. Cyn gwneud dyfarniad o dan y Rhan hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chynrychiolwyr llywodraeth leol ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy. Os yw dyfarniad yn ymwneud ag awdurdod tai lleol penodol, rhaid iddynt ymgynghori hefyd â'r awdurdod hwnnw. Rhaid i Weinidogion Cymru anfon, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gopi o'r dyfarniad i'r awdurdod neu'r awdurdodau y mae'n ymwneud ag ef neu hwy. Caniateir i gopïau o ddyfarniadau gael eu hanfon yn electronig (yn unol â'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).